

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,

Nos Lun, 22 Ionawr 2018

am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol:

Mr Aled Ifan **AI**, Mrs Linda Jones **LJ**, Ms Cari Jones **CJ**, Dr Edward Jones **EJ**, Mr Victor Owen **VO**, Ms R Owen **Clerc**, Miss JA Roberts **JAR (Yn y gadair)** Mrs EAB Thomas **EABT**, Cynghorwr Llinos Medi Huws **LMH**, Ms J Ferry **JF**

Ymddiheuriadau. Mr RAJones, Mr O G Roberts.

2. Datgan Diddordeb.

Clerc ynglyn ac eitem 8.

3. Cofnodion Tachwedd 2017 ac unrhyw faterion yn codi.

3.1 Nododd y clerc yn dilyn trafodaethau anffurfiol gyda sawl adran o GSYM ynglyn a codi hysbysfwrdd fod cais ffurfiol wedi ei wneud am ganiatad i'w godi. Unwaith byddai'r cais wedi ei gymeradwyo byddai'n cael i archebu a'i godi ar unwaith.

3.2 Nododd y clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r AS ac AC lleol ynglyn a trafferthion gyda cysylltiad i'r we a'r effaith negyddol ar gymunedau lleol, ond ar hyn o bryd dim ond wedi derbyn cydnabyddiaeth o'r mater heb ymateb llawn.

4. Cyfetholiad.

Nododd y clerc yn dilyn y dyddiad cau am gyflwyno enwau i ymuno a'r cyngor cymuned mae dim ond dau enw oedd yn parhau, felly byddai'r ddau yn ymuno a'r cyngor cymuned yn ol rheolau cyf ethol. Mrs Bethan Hughes a Ms Joanne Ferry oedd yn cael eu derbyn fel aelodau. Ms Ferry yn bresennol felly yn cael gwadd i ymuno a'r drafodaeth yn syth gan y gadair. Y clerc i gysylltu a Mrs Bethan Hughes i'w hysbysu o'r canlyniad. Nododd **JAR** fod amser maith ers i'r cyngor cymuned fod heb sedd wag, ac roedd yn falch o weld diddordeb gan y gymuned.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

Cyngor Cymuned Bodedern



5. Maes Chwarae.

Nododd **LMH** ei bod yn disgwyl cael gosod offer newydd yn y maes chwarae. Nodwyd fod sawl trafodaeth wedi bod er mwyn sicrhau y lleoliad cywir, gan gysidro peipiau, draeniau ayyb.

6. Materion Cynllunio.

Dim

7. Gohebiaeth.

7.1 Derbyniwyd lythur gan Mr Jac Hughes yn mynegi pryderon am or yrru ar y lon i mewn i'r pentref o gyfeiriad Llanynghenedl. Yn dilyn lleoli "Arrive Alive" ar y lon, nodwyd fod tystiolaeth cryf o or yrru ar y lon. Mynegodd Mr Jac Hughes ddymuniad am sylwadu'r cyngor cymuned cyn ystyried unrhyw gamau pellach. Nodwyd fod problem o or yrru yn bodoli ym mhob mynedfa i'r pentref, ac roedd yn nodwedol fod unigolion yn ceisio cyngor gan y cyngor cymuned yn dilyn trafodaethau gyda CSYM. Nododd **LMH** nad oedd y gyllideb gan CSYM i wneud unrhyw welliannau, er esiampl codi arwyddion fflachio "Arafwch" ayyb gan mae grantiau gan Cynulliad Cymru sydd wedi galluogi eu codi mewn manau yn barod, ond yn anffodus roedd Cynulliad Cymru wedi dod a'r grantiau yma i ben sydd wedi cael effaith negyddol iawn ar allu CSYM i gefnogi pryderon y gymuned. Nodwyd efallai byddai modd gwneud cais am linellau coch a fyddai'n mynd rhyw ffordd i arafu traffic ar y lon. Y clerc i gydnabod pryderon Mr Hughes, a gyrru'r llythur ymlaen i CSYM gyda cais am linellau coch.

7.2 Derbyniwyd lythur gan Mr John Roberts, archiwlydd mewnol yn hysbysu ei fwriad o ymddeol oherwydd y newidiadau yn y gofynion ar gynghorion ac oherwydd amser ei wasanaeth, ac yn cynnig manylion cyswllt archwilydd mewnol gan Cyngor Gwynedd. Gofwynwyd i'r clerc beidio a cysylltu a nhw nes fod cadarnhad wedi dod gan CSYM os byddent yn gallu ymgymryd a'r gwaith. Y clerc i ddiolch i Mr Roberts am ei waith a'i gefnogaeth ar hyd y blynyddoedd.

7.3 Derbynwyd lythur gwrthwynebiad gan Owain a Manon Gwilym ynglyn a'r barn sgrinio ym Mhenmynydd. Y clerc i gydnabod y sylwadau fel rhai dyls, ond nodwyd mae'r dyddiad cau ar gyfer sylwadau i CSYM oedd 7/12/17, ond nodwyd dealltwriath fod Mr & Mrs Gwilym wedi gyrru copi o'u gwrthwybiadau i CSYM. Nodwyd os byddai dymuniad i'r cyngor cymuned nodi gwrthwynebiad unwaith byddai cais llawn wedi ei wneud byddai rhai gwrthwynebu ar sail polisi cynllunio penodol.

7.4 Derbyniwd dyfnbris gan Mon Grass Cutting i barhau gyda torri'r gwair yn y fynwent am £120 y torriad, gyda amcangyfrif o 16 torriad, ynghyd a torri'r gwrychyn ddwy waith am £40. Y clerc i ysgrifennu i dderbyn y cynnig.

Clerc/ Clerk:

Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachaeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

Cyngor Cymuned Bodedern



7.5 Derbyniwyd lythur gan Horizon yn hysbysu noson agored yng Ngwesty'r Fali nos Fawrth, 23 o Ionawr ynglyn a tir ychwanegol maent yn fwriadu ddefnyddio os byddent yn codi lon newydd. Y clerch i fynychu.

7.6 Derbyniwyd e-bost gan Mrs Gillian Coates yn mynegi pryderon am ddiolgelwch ar Ffordd B5109 a de-fyndd o'r lon gan anifeiliaid fferm ac cyflymder cerbydion ar y lon. Roedd wedi derbyn ymateb gan CSYM yn egluro eu safwbynt, ac yn nodi byddent yn gyrru arolygydd at y lon i benderfynnu os oedd angen gosod arwyddion yn rhybuddio gyrrwyr fod anifeiliad ar y lon. Y clerch i gydnabod pryderon Mrs Coates ac i holi gyda CSYM ynglyn a canlyniad eu archwiliad. Nodwyd hefyd fod pwysau mawr iawn ar gyllideb CSYM gan lywodraeth San Steffan, ac roedd penderfyniadau annodd iawn yn gorfod cael eu gwneud ynglyn a cyllideb adrannau fel priffyrdd, ac ei bod yn bwysig iawn i unigolion a chyngor cymunedau roi eu adborth ynglyn a'r torriadau sydd yn gorfod cael eu gorfodi.

8. Addasiad i ffioedd Mynwent Cyhoeddus Bodedern.

Nodwyd cytundeb gan Llywodraeth Cymru i ddileu ffioedd i gladdu plant yng Nghymru, a cytunwyd i addasu ffioedd Mynwent Cymuned Bodedern i gydymffurfio gyda hyn. Yn y dyfodol, ni bydd unrhyw ffi am gladdu plentyn unai yn y llecyn plant nac llecyn oedolion. Y clerch i addasu'r ffioedd yn briodol.

9. Taliadau i'w gwneud.

Mr John Roberts	Archwiliad Mewnol 16-17	£75.00
Swyddfa Archwilio Cymru	Archwiliad allanol 16-17	£265.95
Cyflog Clerch	Hydref/Tachwedd/Rhagfyr	£480.00
PAYE Clerch	Hydref/Tachwedd/Rhagfyr	£120.00

10. Unrhyw fater arall.

10.1 Nododd EABT fod pryderon gan drigolion y pentref ynglyn a sefyllfa parcio o amgylch y feddygfa, ac fod trigolio Bro'r Ysgol yn enwedig yn cael eu cau i mewn ar adegau. Nodwyd fod y feddygfa wedi ei ymestyn heb rhoi ystyriaeth i'r sefyllfa parcio. Y clerch i ysgrifennu at y feddygfa yn mynegi pryderon, a chysylltu a CSYM i ofyn os fyddai modd rhoi unrhyw arwyddion i fynu.

10.2 Holodd JF os oedd unrhyw ddiweddariad ynglyn a Lon Dywyll. Nododd y clerch fod cynghorwr Ken Hughes wedi cael ymateb gan CSYM yn nodi byddai'r tim cymunedol yn ymweld i dorri'r gwrychynedd.

10.3 Nodwyd fod difrod i arwydd Garden Lane. Y clerch i gysylltu a CSYM i'w hysbysu.

11. Dyddiad cyfarfod nesaf.

26 Chwefror 2018.

Cau

20:20

Clerch/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachaeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com